Penrhyn-coch

Cafwyd tipyn o brysurdeb yn yr ysgol pan ddaeth gŵŷr camerâu'r BBC atom i recordio'r plant yn canu emyn ar gyfer ei ddarlledu ar Songs of Praise, a rhaid oedd ffilmio'r plant ieuangaf wrth eu gwaith yn y dosbarth a'r plant hyn allan yn y iard yn diddori eu hunain. 'Roedd y cynhyrchyd Dafydd Owen yn hynod o falch o gael ymweld â'r ysgol gan fod atgofion hyfryd yn dyfod yn ôl iddo meddai ef oherwydd bu plant Ysgol Penrhyn yn treulio wythnos yn ei gwmni yng nghanolfan ieuenctid y Bala pan oedd yn warden yno. Cawsom y cyfle hefyd o groesawu Miss Gaenor Howells a aeth o amgylch y gwahanol ddosbarthiadau. Galw wnaeth hi oherwydd mai prifathro presennol ysgol y Penrhyn oedd ei phrifathro hithau ym Mhonterwyd trwy gydol yr amser y bu hi'n yr Ysgol Gynradd yno rai blynyddoedd yn ôl, bellach. Y diwrnod ar ôl y recordio galwodd Aled Jones heibio i ni a chafodd sgwrs gydag amryw o'r plant.

Do bu'r cyfan yn brofiad hyfryd i bawb ohonom a rhaid yw diolch i bobl y teledu am i ni gael y cyfle o gael ein recordio a diolch hefyd am eu geiriau caredig a'u canmoliaeth o ymddygiad boneddigaidd a chwrteisi'r plant trwy gydol yr amser y bu'r criw o'r BBC wrthi'n gwneud y ffilmio.